Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Dyraniadau cyllid addysgu addysg uwch craidd ar gyfer Coleg Cambria 2025/26

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 11 Chwefror 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/05 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach a gyllidir yn uniongyrchol |
| **Ymateb erbyn:** | Nid oes angen ymateb |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Hannah Falvey \| ystadegauAU@medr.cymru |


**Crynodeb**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn hysbysu darparwyr am y dyraniadau cyllid addysgu addysg uwch craidd i Goleg Cambria ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, ac yn atodiad i'r dyraniadau cyllid addysg uwch a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025 yng nghyhoeddiad Medr Medr/2025/06:Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cyflwyniad

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn hysbysu darparwyr am y dyraniadau cyllid addysgu addysg uwch craidd i Goleg Cambria ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, ac yn atodiad i'r dyraniadau cyllid addysg uwch a gyhoeddwyd ym mis Awst 2025 yng nghyhoeddiad Medr Medr/2025/06: Dyraniadau cyllid Medr ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26**.** Mae Coleg Cambria yn gymwys i gael cyllid gan Medr ar gyfer ei ddarpariaeth addysg uwch o flwyddyn academaidd 2025/26 gan fod ganddo gynllun ffioedd a mynediad cymeradwy o flwyddyn academaidd 2025/26.

## Cyllid addysgu addysg uwch craidd

2. Mae cyllid addysgu addysg uwch craidd yn cynnwys:

   - Cyllid cyrsiau gradd rhan-amser yn seiliedig ar gredydau;
   - Cyllid fesul pen;
   - Premiwm mynediad a chadw;
   - Premiwm anabledd;
   - Premiwm pynciau drud;
   - Premiwm pynciau cost uwch;
   - Premiwm cyfrwng Cymraeg.

   Ceir rhagor o wybodaeth am y ffrydiau ariannu hyn yn Medr/2025/06.

3. Defnyddiwyd data a gasglwyd ar gofnod myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) 2023/24 ar gyfer Coleg Cambria wrth gyfrifo'r dyraniadau. Ceir rhagor o wybodaeth am y data a echdynnwyd ac a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo yng nghyhoeddiad Medr Medr/2024/01: Gofynion Data Addysg Uwch 2024/25.

4. Rhoddir gwybod ar wahân am ffrydiau ariannu addysg uwch eraill y gallai Coleg Cambria fod yn gymwys ar eu cyfer.

## Dyraniadau Coleg Cambria ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26

5. Mae'r tabl canlynol yn dangos dyraniadau addysgu craidd Coleg Cambria ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26:

| **Ffrwd cyllid** | **Cyllid israddedig amser llawn (£)** | **Cyllid israddedig rhan-amser (£)** | **Cyfanswm cyllid addysgu craidd 2025/26 (£)** |
|---|---|---|---|
| Cyllid israddedig rhan-amser yn seiliedig ar gredydau | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid fesul pen | 132 | 5 | 137 |
| Y Premiwm Mynediad a Chadw | 0 | 212 | 212 |
| Premiwm anabledd | 0 | 0 | 0 |
| Premiwm pynciau drud | 0 | 0 | 0 |
| Premiwm pynciau cost uwch | 16,668 | 0 | 16,668 |
| Y premiwm cyfrwng Cymraeg | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **16,800** | **217** | **17,017** |

## Amserlen dalu

6. Yr amserlen dalu ar gyfer cyllid addysgu addysg uwch craidd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26 fel arfer yw talu 10% o'r cyllid i ddarparwyr ym mhob mis o'r flwyddyn heblaw am fis Chwefror a mis Mawrth. Felly, ar gyfer Coleg Cambria ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26, bydd taliadau ar gyfer Awst 2025 i Ionawr 2026 (cyfanswm o 60%) yn cael eu talu gyda thaliad Ebrill 2026 a bydd 10% pellach yn cael ei dalu ym mis Ebrill, Mai, Mehefin a Gorffennaf 2026.

## Rhagor o wybodaeth

7. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i sylw Hannah Falvey ystadegauAU@medr.cymru).

www.medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**